**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi yr Economi, Amgylchedd ac Isadeiledd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 19 Tachwedd 2020 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C Anderson (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | P Downing | P R Hood-Williams |
| W G Lewis | P Lloyd | P M Matthews |
| T M White | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Scott Dummett | Uwch-gyfreithiwr |
| Phil Holmes | Head of Planning & City Regeneration |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Paul Relf | Rheolwr Cyllid Allanol |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P K Jones

---

## 9 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 10 Cofnodion.

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo Cofnodion Pwyllgor Datblygu Polisi yr Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2020, fel cofnod cywir.

## 11 Ymateb i'r Ymgynghoriad gan y Strategaeth Toiledau Lleol.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Lleoedd yr ymateb i'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r Strategaeth Toiledau Leol.

Nododd yr Aelodau y cefndir, yr ymgynghoriad cyhoeddus, datblygiadau diweddar a rhai sydd ar y gweill a'r camau nesaf.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau i'r Swyddog a ymatebodd yn briodol.

Cyfeiriodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth at ddatblygu pen uchaf y Stryd Fawr. Byddai'r datblygiad yn cynnwys llety myfyrwyr a byddai'n creu

cyfleoedd i fusnesau lleol. Nodwyd bod Trafnidiaeth Cymru yn ystyried gosod cyfleusterau cyhoeddus o flaen yr orsaf drenau.

Manylodd Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Ynni a Gwella Gwasanaethau ar y canlyniadau llwyddiannus a gafwyd o ganlyniad i waith a wnaed gan y cyngor a sefydliadau'r Trydydd Sector i gael effeithiau cadarnhaol mewn perthynas â nifer yr unigolion digartref yng Nghanol y Ddinas.

Cyfeiriodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd at ymdrechion y cyngor i ennill y Prosiect DIY SOS llwyddiannus ym Mae Caswell a oedd wedi gwella enw da'r cyngor ac Abertawe yn ei chyfanrwydd.

Llongyfarchodd y Cadeirydd y Swyddogion am eu mewnbwn o ran adfywio, digartrefedd a Phrosiect DIY SOS.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Lleoedd am ei adroddiad llawn gwybodaeth.

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad.

## 12 Cynllun Gweithredu Adfer Economaidd.

Darparodd y Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas grynodeb cynhwysfawr o'r Cynllun Gweithredu Adfer Economaidd gyda chymorth y Rheolwr Datblygu Economaidd ac Ariannu Allanol.

Nododd yr Aelodau'r materion allweddol yn y Cynllun Gweithredu a'r gwaith cadarnhaol a wnaed i sicrhau ffrydiau grant a darparu ystod amgen o gymorth i gefnogi unigolion a busnesau.

Canmolodd Aelodau'r Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth a Gwella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd Swyddogion am gydweithio a sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn ystod pandemig COVID-19.

Mynegodd y Cadeirydd a'r Aelodau eu diolch i'r Swyddogion am eu hymdrechion a'u llwyddiannau.

**Penderfynwyd** y byddai agweddau ar y Cynllun Gweithredu yn eitem barhaus i'w hystyried gan y Pwyllgor.

## 13 Cynllun Gwaith 2020/2021.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Cynllun Gwaith amlinellol ar gyfer 2020 - 2022.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd y byddai Cylch Gorchwyl Pwyllgor Datblygu Polisi yr Economi ac Isadeiledd yn cael ei ddiwygio yn ystod cyfarfod y cyngor ym mis Rhagfyr i gwmpasu materion amgylcheddol. Awgrymwyd y dylid pennu eitemau'r Cynllun Gwaith mewn perthynas ag amserlenni ar ôl i'r diwygiad gael ei wneud.

Trafododd yr Aelodau'r Ymgynghoriad ar y Strategaeth Toiledau a phenderfynwyd nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud, ac roeddent yn ddiolchgar i'r Swyddogion am eu hadroddiad cynhwysfawr.

Byddai angen i'r Pwyllgor Datblygu Polisi ystyried y Cynllun Gweithredu Adferiad Economaidd o bryd i'w gilydd wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

**Penderfynwyd:**

1. caiff y Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd ei hystyried yn y cyfarfod ar 17 Rhagfyr 2020.
2. Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Lleoedd ynghylch y cynllun gwaith amlinellol ar gyfer 2020-2022 ac yn pennu amserlen ar gyfer ystyried eitemau.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.49 pm

**Cadeirydd**